

Hysbysiad hwylus

Cyfes Lles yng Nghymru: Effaith y newidiadau

Medi 2011

Cyflwyniad

Fel y nodwyd yn yr hysbysiad cyntaf yn y gyfres hon ([Ystadegau Lles](#)), mae nifer y bobl sy'n dibynnu ar fudd-daliadau Lles yng Nghymru gyda'r uchaf ym Mhrydain. Oherwydd cyfuniad o ffactorau, caiff newidiadau Llywodraeth y DU i'r system Lles effaith sylweddol ar Gymru, yn enwedig mewn rhai ardaloedd:

- Mae cyfran y bobl sy'n cael y **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)** neu'r **Budd-dal Analluogrwydd** yn uwch yng Nghymru nag yn y DU; mae 10 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio yn cael y naill fudd-dal neu'r llall ar ryw ffurf;
- Mae cyfran y bobl yng Nghymru sy'n hawlio budd-daliadau am **bum mlynedd neu ragor**, sef 8.5 y cant gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Prydain, sef 5.9 y cant;
- Yng Nghymru mae'r **gyfran uchaf o bobl sy'n hawlio budd-daliadau anabledd**, sef 1.3 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio;
- Mewn rhai ardaloedd yn ne Cymru mae **cymhareb uchel iawn** rhwng nifer y rhai sy'n **hawlio'r** Lwfans Ceisio Gwaith a nifer y **swyddi gwag** a hysbysebir mewn Canolfannau Gwaith.

Mae'r camau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd i ddiwygio'r system Lles yn canolbwyntio ar symud y rhai sydd wedi bod yn hawlio budd-daliadau hirdymor, yn enwedig budd-daliadau salwch fel ESA a'r Budd-dal Annalluogrwydd, yn ôl i'r gweithle. Hefyd, bydd y newidiadau hirdymor arfaethedig yn y Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yn effeithio ar nifer o bobl yng Nghymru.

Mae'n werth nodi mai dim ond rhai rhannau o [asesiadau o effaith](#) diwygiadau Lles yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) sy'n nodi ffigurau ar gyfer Cymru, felly mae'n anodd ar hyn o bryd amcangyfrif union nifer y bobl y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt. Nid yw'r cynigion ar gyfer newid y Lwfans Byw i'r Anabl yn cynnwys ffigurau eto i ddangos faint o bobl yng Nghymru y mae'r newidiadau'n debygol o effeithio arnynt.

Effaith y newidiadau ar fudd-daliadau salwch

Disodlwyd Budd-dal Analluogrwydd a Chymhorthdal Incwm a dalwyd ar sail analluogrwydd gan y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)¹ yn achos ceisiadau newydd o 27 Hydref 2008 ymlaen. Pan gyflwynwyd yr ESA newydd ym mis Hydref 2008 i'r rhai a oedd yn ei hawlio am y tro cyntaf, cyflwynwyd **asesiad newydd** hefyd, sef yr **Aseiad Gallu i Weithio** (AGW).

Yng Nghymru, rhwng mis Hydref 2008 a mis Tachwedd 2010, dangosodd canlyniadau'r AGW fod:

- **39 y cant** o'r rhai a oedd yn hawlio'r Lwfans am y tro cyntaf **yn ddigon iach i weithio**;
- **5 y cant** yn perthyn i'r **Grŵp Cymorth**;
- **19 y cant** yn perthyn i'r **Grŵp Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith**; a bod
- **36 y cant** o'r hawliadau wedi cau cyn cwblhau'r asesiad.²

Os caiff pobl eu derbyn i'r Grŵp Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith, i gael ESA yn seiliedig ar gyfraniadau, o fis Ebrill 2012, **dim ond am flwyddyn y caiff y Lwfans ei thalu**.

Yn ôl amcangyfrif yr Adran Gwaith a Phensiynau, pan ddaw'r flwyddyn i ben, **ni fydd 40 y cant o'r rhai sy'n hawlio'r ESA yn gallu parhau i'w hawlio**, a byddant yn colli £89 yr wythnos ar gyfartaledd; bydd yn rhaid i'r rhain ddibynnu ar fath arall o incwm.³

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif mai dyma fydd yn digwydd i'r rhai yr aseswyd eu **bod yn ddigon iach i weithio**:

- bydd **50 y cant** yn hawlio **Lwfans Ceisio Gwaith**
- bydd **20 y cant** yn hawlio budd-dal **gwahanol** (e.e. Cymhorthdal Incwm, Lwfans Gofalwyr) neu'n ail-hawlio'r ESA;
- bydd **30 y cant** yn rhoi'r gorau i hawlio **budd-daliadau o unrhyw fath**.⁴

Ers mis Tachwedd 2010, roedd **64 y cant o'r rhai a oedd yn hawlio'r ESA a Budd-dal Analluogrwydd yng Nghymru** (117,770 o bobl) wedi bod yn ei hawlio am **bum mlynedd neu ragor**⁵, ac ar ôl cyflwyno'r terfyn amser, mae'n debyg y bydd nifer sylweddol o'r rhain naill ai'n hawlio budd-dal arall (os ydynt yn gymwys) neu bydd yn rhaid iddynt ddibynnu ar fath arall o incwm.

Effaith y newidiadau ar Fudd-dal Tai

Ar ôl cyflwyno'r Credyd Cynhwysol, caiff Budd-dal Tai ei ddiddymu a chaiff yr elfen tai yn y Credyd Cynhwysfawr ei gweinyddu'n ganolog gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn hytrach na chan awdurdodau lleol. Cyn hyn, mae nifer o newidiadau yn y system bresennol

¹ Mae dau fath o ESA: **seiliedig ar gyfraniadau** os yw'r rhai sy'n ei hawlio wedi talu digon o gyfraniadau Ywiriant Gwladol; a **seiliedig ar incwm** os yw eu hincwm a'u cynilion yn ddigon isel.

² Yr Adran Gwaith a Phensiynau, **ESA: Work Capability Assessment Statistical Release July 2011 - Table 1 (Wales)** [fel ar 4 Awst 2011]

³ Yr Adran Gwaith a Phensiynau, **Time-limiting contributory element of Employment and Support Allowance**, Ebrill 2011

⁴ Yr Adran Gwaith a Phensiynau, **Impact Assessment - The Employment and Support Allowance (Limited Capability for Work and Limited Capability for Work-Related Activity) (Amendment) Regulations 2011**, Rhagfyr 2010, t8

⁵ Yr Adran Gwaith a Phensiynau, NOMIS

wedi'u rhoi ar waith a'u cynllunio.

Yn ôl asesiad yr Adran Gwaith a Phensiynau, dyma effaith y tri newid cyntaf yn y Budd-dal Tai⁶ a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2011⁷:

- Ym mis Mawrth 2010, roedd **34,920 o bobl⁸ yn hawlio Budd-dal Tai yng Nghymru**, ac roedd Budd-dal Tai **48,710 o bobl⁹ yn cael ei bennu'n ôl y Gyfradd Lwfans Tai Lleol (LHA)** (tua 21 y cant o'r rhai a oedd yn hawlio Budd-dal Tai);
- Amcangyfrifir y bydd **48,530 o'r rhai sy'n hawlio'r Gyfradd Lwfans Tai Lleol yng Nghymru yn colli arian** o ganlyniad i'r newidiadau hyn (99.6 y cant o'r rhai sy'n derbyn y Gyfradd Lwfans Tai Lleol);¹⁰
- Amcangyfrifir y bydd **pob person yng Nghymru sy'n hawlio Budd-dal Tai yn colli £9.00 yr wythnos ar gyfartaledd**, o'i gymharu â'r £12 y bydd pobl yn y DU gyfan yn ei golli.¹¹

Yn ogystal â'r newidiadau hyn:

- Bydd y mesur arfaethedig i gyfyngu ar swm y Budd-dal Tai a gaiff ei dalu i bobl sy'n byw mewn **tai cymdeithasol**, ac yr ystyrir bod eu cartref **yn rhy fawr iddynt** (bod ganddynt fwy o llofftudd nag sydd eu hangen arnynt), yn debygol o effeithio ar oddeutu **40,000 o bobl yng Nghymru** (42 y cant o bobl o oedran gweithio yn y sector rhentu tai cymdeithasol). Byddant **yn colli £11 yr wythnos** ar gyfartaledd;^{12a}
- Bydd y penderfyniad i godi'r oedran i fedru hawlio'r **Gyfradd Rhannu Llety** o 25 oed i 35 oed **yn effeithio ar 3,080 o bobl yng Nghymru**. Byddant yn colli **£24 yr wythnos** ar gyfartaledd¹³

Effaith y newidiadau ar Fudd-dal Plant a Chredyau Treth

Yn ôl asesiad Llywodraeth Cymru o'r mesurau i ddiwygio lles, bydd y penderfyniad i roi'r gorau i dalu **Budd-dal Plant** i'r rhai sy'n talu treth ar y gyfradd uchaf, ac i rewi'r cyfraddau am dair blynedd, yn effeithio ar deuluoedd yng Nghymru, ond nid i'r un graddau ag yn rhannau eraill o'r DU. Gellir priodoli hyn i'r ffaith bod llai o bobl yng Nghymru yn talu treth ar y gyfradd uchaf.

Amcangyfrifir y bydd **1 o bob 10 teulu yng Nghymru yn colli Budd-dal Plant**, o'i gymharu ag **1 o bob 6 yn y DU** gyfan.¹⁴

⁶ Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys y cyfyngiad 4 llofft, newid i renti yn y 30ain canradd a dileu'r tâl ychwanegol o £15. Gweler Hysbysiad Hwylus rhif 3 yn y gyfres hon i gael rhagor o wybodaeth.

⁷ Cafodd asesiad yr Adran Gwaith a Phensiynau o effaith y newidiadau yn y Budd-dal Tai eu modelu ar ystadegau mis Mawrth 2010.

⁸ Yr Adran Gwaith a Phensiynau, [Housing Benefit and Council Tax Benefit Summary Statistics – March 2010](#), [fel ar 15/10/10]

⁹ Yr Adran Gwaith a Phensiynau, [Impact of changes to Housing Benefit](#) (adroddiad a thablau data) [fel ar 14/10/10]

¹⁰ Ibid Tabl 5

¹¹ Ibid

¹² Yr Adran Gwaith a Phensiynau, [Impact Assessment - Social sector housing under-occupation](#), Chwefror 2011, t11

¹³ Yr Adran Gwaith a Phensiynau, [Impact Assessment - Increasing the Shared Accommodation Rate age threshold to 35](#), t19

¹⁴ Llywodraeth Cymru (2010) [Yr effaith y gallai Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a mesurau Cyllidebol Llywodraeth clymblaid y DU ei chael ar Gymru](#) (Saesneg yn unig)

Mae asesiad Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi:

[...] there are proportionately more families receiving **Working Tax Credit** (WTC) in Wales than in the UK. Also, there are proportionately more people working part-time in Wales than in the UK (26.6 per cent versus 25.6 per cent), so freezing the WTC and increasing the required number of hours worked before qualifying for WTC may **adversely affect Wales** more than the UK in general.¹⁵

Caiff y colledion hyn eu gwrthbwyso, i raddau, gan y cynnydd yn y swm a gaiff ei wario ar yr elfen plentyn yn y Credyd Treth Plant. Mae'n werth nodi hefyd bod **llai o bobl yn hawlio'r elfen gofal plant yng Nghymru** nag yn Lloegr. Bydd y newidiadau yn y Credyd Treth Gwaith a'r Credyd Treth Plant, ynghyd â'r newidiadau ehangach yn y system lles, yn rhoi pwysau ychwanegol ar deuluoedd â phlant.¹⁶

Effaith y newidiadau ar Fudd-dal y Dreth Gyngor

O fis Ebrill 2013 ymlaen, bydd Budd-dal y Dreth Gyngor, a gaiff ei dalu i awdurdodau lleol Cymru gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar hyn o bryd, ei ddisodli gan **grantiau i awdurdodau lleol**, a fydd yn rhoi mwy o reolaeth iddynt dros y gwaith o weinyddu'r budd-dal. Hefyd, yn yr Adolygiad o Wariant ym mis Hydref 2010, cyhoeddwyd **gostyngiad o 10 y cant yn y Budd-dal**.

Daeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid i'r casgliad y bydd y gostyngiad hwn yn golygu y bydd y teuluoedd tlotaf ar eu colled,¹⁷ ac y bydd yr effaith hwn yn amlycach yng Nghymru o gofio bod nifer y teuluoedd ar incwm isel yn uwch yma.

Effaith cyfyngu ar fudd-daliadau

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r mesurau i ddiwygio lles yn nodi:

[...] capping benefit payments will hit **large families and families living in high rent areas** most. Rents in Wales are lower than in the UK and the proportion of benefit claimants with large families is also lower (1.5 per cent of claimants in Wales have four or more children versus 1.8 per cent in the UK). Overall, the effect of this change, while negative, **should be less adverse than in Great Britain** (data not available at UK level).¹⁸

Mae asesiad yr Adran Gwaith a Phensiynau o effaith y mesur hwn yn amcangyfrif y bydd yn effeithio ar oddeutu 50,000 o deuluoedd ledled Prydain, sef tua 1 y cant o'r holl bobl ddi-waith sy'n hawlio budd-daliadau.¹⁹

¹⁵ Llywodraeth Cymru (2010) [Yr effaith y gallai Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a mesurau Cyllidebol Llywodraeth clymblaid y DU ei chael ar Gymru](#) (Saesneg yn unig)

¹⁶ Llywodraeth Cymru (2010) [Yr effaith y gallai Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a mesurau Cyllidebol Llywodraeth clymblaid y DU ei chael ar Gymru](#) (Saesneg yn unig)

¹⁷ Brewer, M., [Cuts to welfare spending, take 2](#) (cyflwyniad o ddogfen briffio'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid), 28 Medi 2010

¹⁸ Llywodraeth Cymru (2010) [Yr effaith y gallai Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a mesurau Cyllidebol Llywodraeth clymblaid y DU ei chael ar Gymru](#) (Saesneg yn unig)

¹⁹ Yr Adran Gwaith a Phensiynau, [Impact Assessment - Household benefit cap](#)

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am effaith y newidiadau, cysylltwch â **Hannah Johnson** (Hannah.Johnson@Wales.gov.uk), yn y Gwasanaeth Ymchwil.

Gallwch weld rhestr lawn o [hysbysiadau hwylus](#) yma

Rhif ymholiad: 11/0928 Hannah Johnson

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r

Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd.

Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon drwy'r post i'r Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu dros e-bost i Research.Service@wales.gov.uk